



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Hydref 2022

Annwyl Jenny,

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 6 Hydref, gweler yr wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Pa ganlyniadau mesuradwy ydych chi am eu gweld i ddangos llwyddiant y Bil?

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 22 Gorffennaf, mae amcanion y Bil yn eang, ac yn dibynnu ar ffordd o weithio a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu.

Mae llawer o amcanion y Bil yn canolbwyntio ar weithredu newid nad oes modd ei fesur yn hawdd. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn canolbwyntio ar weithredu newid diwylliant mewn strwythurau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys nodau i feithrin arweinyddiaeth system, sy'n cynnwys gweledigaeth gyffredin a chonsensws o blith rhanddeiliaid mewn meysydd o ddiddordeb ar y cyd. I fesur yr amcan hwn a buddiannau anariannol eraill, mae'n rhaid gwneud gwaith ymholi ansoddol gyda rhanddeiliaid i ganfod eu barn ar y graddau y mae hyn wedi digwydd, a sut y gellir teilwra strwythurau a chyfleoedd i ymgysylltu er mwyn cyflawni'r nodau hirdymor yn well.

Wedi dweud hynny, mae'r gwaith a wnaed i ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer y Bil wedi nodi nifer o ganlyniadau lefel uwch tebygol, ac rwy'n gobeithio gweld y rhain yn cael eu cyflawni.

Trwy weithredu'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol a'r dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol, er enghraifft, byddwn yn disgwyl gweld gwelliannau mewn llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gyson â'r nodau llesiant sydd yn Rhan 2 Adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn disgwyl gweld cynnydd tuag at ein safonau Gwaith Teg, cyflogaeth o ansawdd gwell, darparu polisïau mwy effeithiol a gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ochr yn ochr â chynhyrchiant gwell yn y sector preifat lle mae egwyddorion ac arferion partneriaeth gymdeithasol yn cael eu mabwysiadu. Dros amser, byddwn yn disgwyl gweld system o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn datblygu ledled Cymru ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, sy'n gydlynus ac yn hunangyfnerthol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y canlyniad allweddol a fwriadwyd ei gael, yn y tymor byr/canolig, o ddiwygio'r nod llesiant 'Cymru Ffyniannus' yw y bydd cyrff cyhoeddus, wrth ddatblygu a bodloni eu hamcanion llesiant, yn ystyried yn fwy effeithiol y camau pellach y gallant eu cymryd i symud ymlaen â gwaith teg yn eu sefydliadau a'r rhai y maent yn cydweithio â nhw er mwyn gwella llesiant. Dros y tymor hirach, canlyniad allweddol y newid hwn yw y bydd cyrff cyhoeddus fel cyflogwyr, fel llunwyr polisïau, fel darparwyr gwasanaethau ac fel cyllidwyr partneriaid allanol, mewn sefyllfa well i arwain trwy esiampl ar waith teg a modelu'r ymddygiadau, arferion a phrosesau yr hoffem eu gweld.

Yn y tymor hwy rydym am weld arfer da yn cael eu cymhwyso'n fwy cyson wrth ddilyn nodau llesiant trwy gaffael a rheoli contractau. Dylai awdurdodau contractio fod yn rhoi blaenoriaeth uwch i lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol nag y maent ar hyn o bryd, a bydd metrigau perfformiad ac astudiaethau achos yn dangos hyn. Fel yr awgrymwyd yn un o'r sesiynau tystiolaeth craffu, ni fyddwn yn dechrau mesur y gwahaniaeth y mae'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn ei wneud yn y data sy'n cael ei gasglu ac yr adroddir arno'n flynyddol am o leiaf 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae sefydliadau eisoes yn cysylltu â swyddogion i ofyn beth sydd angen iddynt ei ystyried wrth iddynt ddatblygu eu rhaglenni, eu strategaethau a'u cynlluniau er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth sydd i ddod.

Bydd llwyddiant yn cael ei ddangos yn y tymor byrrach gan set llawer cliriach o ddisgwyliadau, a nodir mewn canllawiau a hyfforddiant, i'r rhai sy'n ymwneud â chaffael a rheoli contractau ynghyd â set gytûn o fetrigau i'w casglu a'u hadrodd. Os byddwn yn llwyddiannus bydd y canllawiau hyn yn cael eu hintegreiddio'n briodol gyda'r canllawiau a'r cymorth sy'n cyd-fynd â chyfraith arall, yn enwedig deddfwriaeth caffael y Deyrnas Unedig sydd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylem hefyd weld cysondeb rhwng y cyrff sy'n gyfrifol am oruchwylio ac atebolrwydd ar y darnau hyn o ddeddfwriaeth yng Nghymru.

A allwch chi egluro'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ar y canllawiau statudol a chadarnhau a fydd y Pwyllgor yn cael ystyried y canllawiau ar eu ffurf ddrafft, a rhoi sylwadau arny'n nhw?

Bydd canllawiau statudol ar y ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol yn amlweddog. Bydd angen iddynt gynnwys deunydd ar bob un o'r nodau llesiant a sut mae modd mynd ar drywydd y rhain trwy wahanol rannau o'r broses gaffael a rheoli contractau. Bydd angen iddynt gynnwys darpariaethau penodol sy'n mynd i'r afael â materion mewn sectorau penodol, er enghraifft bwyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen iddynt hefyd gynnwys enghreifftiau ac astudiaethau achos. Yn ychwanegol at hyn, mae angen i'r canllawiau fod yn gyson â'r deunydd newydd sydd ei angen i eistedd ochr yn ochr â chyfraith gaffael newydd y Deyrnas Unedig, a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig yng Nghymru. Mae hwn yn ddarn o waith cymhleth.

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu'r canllawiau hyn mewn partneriaeth gymdeithasol, gan ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid ar y cychwyn a thrwy gydol y gwaith o ddatblygu'r deunydd. Bydd angen i ni ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid yn y cymunedau caffael a rheoli contractau, cyflenwyr preifat a thrydydd sector ac arbenigwyr polisi wrth i ni ddatblygu'r canllawiau cymhleth hyn.

Byddwn yn gweithio ar adrannau gwahanol o'r canllawiau statudol ar adegau gwahanol a bydd y broses yn dechrau gyda gwahoddiad agored i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid i gymryd rhan. Wrth i ganllawiau drafft gael eu datblygu byddwn yn ymgynghori arnynt, a byddem yn hapus i'w rhannu â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol pan

ddaw'r amser i wneud hynny. Fodd bynnag, o ystyried y gwaith sydd ei angen, ni fydd y canllawiau drafft ar gael yn ystod y camau craffu ar y Bil ond rwy'n hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'u cynnwys yn y gwaith sy'n cael ei wneud yn y misoedd i ddod.

Pa drafodaethau y mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol wedi'u cynnal ar gostau byw, ac ar y gweithredu diwydiannol diweddar?

Fe waeth y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ddod ag aelodaeth estynedig o bartneriaid cymdeithasol at ei gilydd i chwarae rhan allweddol yn y broses o lywio ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19. Daeth i ben ar 14 Gorffennaf wrth i ni symud o ymateb i'r pandemig i fusnes craidd.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion drefnu i grŵp newydd o'r enw'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol gael ei sefydlu yr hydref hwn fel fforwm ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol, gyda chylch gwaith sy'n canolbwyntio ar baratoi'r ffordd ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol a gweithredu'r Bil.


Cynhaliodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford, gyfarfod ag ystod eang o bartneriaid ar 28 Medi, yn benodol i drafod yr argyfwng costau byw a'i effaith. Yn y cyfarfod hwn, dywedodd y Prif Weinidog ei fod wedi sefydlu is-bwyllgor Cabinet newydd i ymdrin â chostau byw, er mwyn canolbwyntio ar ddwyn ynghyd gwaith Llywodraeth Cymru ynghyd i fynd i'r afael â'r argyfwng. I gydnabod yr ystod o sefydliadau ar draws Cymru sy'n ymateb i'r argyfwng, mae partneriaid hefyd yn cael eu gwahodd i'r pwyllgor i rannu eu harbenigedd a thrafod syniadau. Nid yw'r forymau hyn wedi trafod gweithredu diwydiannol gan mai cyflogwyr penodol a'u hundebau llafur sydd yn y sefyllfa orau a mwyaf priodol i ddatrys y materion hyn.

Sut un fyddai dull gweithredu Llywodraeth Cymru, pe bai'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn cael nifer sylweddol o geisiadau i gyfryngu, os nad yw'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wedi'i chyflawni, o bosibl?

Nid yw cyfryngu yn un o swyddogaethau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae adran 1 o'r Bil yn nodi swyddogaethau'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, sef darparu gwybodaeth a chynghor i Weinidogion Cymru ar y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol; ar gyflawni'r nod llesiant "Cymru lewyrchus" gan gyrrff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygiad cynaliadwy dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac ar y swyddogaethau a roddir i awdurdodau contractio a Gweinidogion Cymru o dan Rhan 3 (caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol).

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor .

Yn gywir,



Hannah Blythyn AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership